


Adroddiad gan yr IWA  
Ebrill 2021

MAKING  
WALES  
BETTER



GWNEUD  
CYMRU  
WELL



## Blaenoriaethau Economaidd yr IWA i Lywodraeth nesaf Cymru





## Gwybodaeth amdanom ni

Ni yw'r Sefydliad Materion Cymreig, prif felin drafod Cymru.

Rydym yn herio, yn ysbrydoli ac yn ysgogi newid, gan wneud Cymru yn lle gwell i fyw ac i weithio i bawb.

Rydym yn annibynnol o'r llywodraeth a phleidiau gwleidyddol.

Drwy dynnu arbenigwyr o bob cefndir ynghyd, rydym yn sbarduno syniadau uchelgeisiol a gwybodus sy'n sicrhau ymrwymïadau gwleidyddol i wella ein democratiaeth, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi.

Rydym yn darparu llwyfannau ar gyfer trafod, cyfleoedd i bobl gael clust i'w lleisiau ac ymchwil sy'n gosod agendâu. Rydym yn cael ein hariannu gan ein haelodau, incwm o'n digwyddiadau a sesiynau hyfforddi, ac yn cael ein cefnogi gan ymddiriedolaethau, sefydliadau a chyrrff cyllido eraill.

Ein gweledigaeth ydy creu Cymru ble gall pawb ffynnu.

I gael rhagor o wybodaeth am yr IWA, ein gwaith polisi a sut i ymuno, naill ai fel cefnogwr unigol neu un sefydliadol, cysylltwch â:

IWA – Y Sefydliad Materion Cymreig, 56 Stryd James, Bae Caerdydd, CF10 5EZ  
ffôn:: 029 2048 4387 | e-bost: [wales@iwa.org.uk](mailto:wales@iwa.org.uk) | [www.iwa.wales](http://www.iwa.wales)

## Ein blaenoriaethau ar gyfer economi ynni

- 1 Ysgogiad carbon isel**, yn seiliedig ar:
  - Ddatgarboneiddio cartrefi
  - Gwasanaeth Ynni wedi'i ailwampio, yn seiliedig ar dechnoleg ddigidol, a'r system ynni sy'n newid yn gyflym
- 2 Sylw i ddarparu:**

Sicrhau bod y sector cyhoeddus yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r capasiti i ddarparu yn unol â'r weledigaeth
- 3 Grid wedi'i ddiogelu at y dyfodol:**

Gweithio ar ddiwygio'r rhwydweithiau ynni er mwyn llunio system ar gyfer y dyfodol

## Ein blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Sylfaenol

- 1 Gwell cydbwysedd mewn cymorth i fusnes**
  - Ymwneud mewn ffordd well a mwy eang gyda BBaChau
  - Annog cydweithio rhwng cwmnïau trwy dalebau a rhwydweithiau
  - Cyllid a chefnogaeth ar gyfer datgarboneiddio
  - Gweithgareddau rhagweld ac adnabod tueddiadau'r dyfodol dan nawdd y Llywodraeth
  - Agwedd fwy manwl wahaniaethol at ddiffinio blaenoriaethau a gosod targedau.
- 2 Gwell rheoleiddio**, nad yw'n rhoi cwmnïau'r economi sylfaenol dan anfantais
- 3 Cymorth tymor hir i arloesi a gwella cynhyrchiant** yn yr economi sylfaenol

## Cael y strwythurau'n iawn

- 1 Gosod yr Economi, Ynni a Chludiant yn yr un portffolio gweinidogol**
- 2 Cynnull fforymau i ddatblygu ceisiadau llwyddiannus**, sy'n cael effaith am **gyllid datblygu economaidd** wedi Brexit
- 3 Datblygu strategaeth deng mlynedd ar gyfer datblygu economaidd**, gyda chefnogaeth trawsbleidiol

## Mapio'r daith tuag at economi fwy llwyddiannus, glân, gwyrdd a theg i Gymru

### Beth yw pwrpas yr economi?

Mae'r cwestiwn hwn yn denu sylw cynyddol gan y rhai sy'n creu polisi, ac nid oes prinder o sylwebwyr a sefydliadau sy'n ddigon parod i gynnig ateb. Mae'r IWA yn dadlau bod angen ystyried y cwestiwn hwn mewn modd mwy gwahaniaethol, gan ystyried beth yw pwrpas polisiau economaidd penodol.

Yng Nghymru, mae'r Senedd wedi deddfu i gael gwell cydbwysedd rhwng ffyniant a thwf economaidd ar y naill law ac amcanion gwerth cymdeithasol eraill Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar y llaw arall. Mae sicrhau bod penderfyniadau'n gwneud y cyfraniad mwyaf posib tuag at bob un o'r nodau hyn yn ddyletswydd cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus erbyn hyn. Wrth geisio cyfrannu tuag at ddeilliannau niferus, dylai'r rhai sy'n creu polisi fynd ati'n drylwyr i fapio llwybr amlwg a chredadwy rhwng eu gweithredoedd a deilliannau penodol.

Mae'r rhai sy'n creu polisiau economaidd yn rhoi'r gorau i feddwl yn nhermau llinell syth rhwng polisi a thwf, gan ychwanegu camau ar y ffordd er mwyn cyfrannu at nodau cymdeithasol – gan gynnwys gwaith tecach, cynaliadwyedd amgylcheddol, a mwy o gyfartaledd rhwng llefydd, a da hynny. Fodd bynnag, mae perygl y daw'r llwybr yn rhy gymhleth ac y byddwn yn colli golwg ar y gyrchfan, neu fyth yn cyrraedd yno.

Trwy gydol tymor y Senedd presennol, mae'r IWA wedi bod yn mapio llwybrau credadwy o waith polisi tuag at ddeilliannau economaidd a chymdeithasol fel ei gilydd. Rydym wedi cynnal prosiectau ymchwil sylweddol sydd wedi cyflwyno argymhellion manwl mewn dau faes polisi economaidd allweddol. Yn eu tro, mae'r rhain wedi arwain at argymhellion ar lefel uwch ynglŷn â'r strwythurau y bydd eu hangen ar Gymru er mwyn darparu yn ôl y blaenoriaethau hyn.



## Polisi ynni fel strategaeth economaidd

Amlinellodd *Re-energising Wales* gynllun ymarferol ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy 100% erbyn 2035, a sut y gallem ddefnyddio polisi ynni fel strategaeth economaidd.

Gwnaethpwyd cynnydd ar rai o'n hargymhellion, ond nid y cyfan. Mae methodolegau a ddatblygwyd gennym wedi'u mabwysiadu ar gyfer mapio ynni lleol, mae ynni morol wedi cael cefnogaeth, ac mae'r Gwasanaeth Ynni wedi'i lansio'n llwyddiannus.

Fodd bynnag, yr egwyddor creiddiol yn *Re-energising Wales* oedd y gallai Cymru, fel gwlad fechan, fforddio rhoi rhagor o bwysau o fewn polisi datgarboneiddio ar y cyfleoedd economaidd a ddaw wrth ddatgarboneiddio ynni. Gellir gwneud mwy i ddod â'r blaenoriaethau hyn ynghyd.

Mae pobl yng Nghymru wedi cael addewidion dro ar ôl tro o swyddi gwyrdd, twf gwyrdd, a thrawsnewidiad teg. Mae perygl i'r syniad y gall ynni adnewyddadwy bweru Cymru yn economaidd golli cefnogaeth os bydd y cyhoedd yn gweld prosiectau'n methu dro ar ôl tro, neu'n edrych allan trwy eu ffenestri ac yn gweld seilwaith gwyrdd nad ydyn nhw'n teimlo ei fod yn rhoi unrhyw fudd iddyn nhw.



# Argymhellion

Credwn y dylai Llywodraeth nesaf Cymru flaenoriaethu cynnydd pellach ar yr argymhellion canlynol:

## 1 Ysgogiad carbon isel

Wedi Covid, mae'r potensial sydd gan ynni adnewyddadwy i roi hwb i ailgychwyn economi Cymru yn amlycach nag erioed. Rydym yn dal o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu hyn, ond mae angen i'r sylw newid mewn dau faes.

### – Adnewyddu cartrefi Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru godi safonau adeiladu a buddsoddi mewn rhaglen tymor hir cartrefi gwyrddach gyda chynhyrchu ynni ar y safle wedi'i ymgorffori. Dylai gwariant yn y maes hwn helpu i ddatblygu cadwyni cyflenwi er mwyn sicrhau fod gan gwmnïau Cymreig fantais 'y cyntaf i'r felin' wrth ateb y galw am gartrefi carbon isel o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

### – Gwasanaeth Ynni mwy clyfar i Gymru

Bydd angen i fusnesau cynhyrchu ynni gyflwyno hyblygrwydd a gwasanaethau ategol i'r system er mwyn llwyddo ym marchnad y dyfodol. Dylai fersiwn nesaf Gwasanaeth Ynni Cymru gael cyfrifoldeb amlycach yn ei gylch gwaith i ystyried materion digidol, cynorthwyo cwmnïau a grwpiau cymunedol Cymru i addasu eu darpariaeth yn unol ag anghenion system y dyfodol, a sicrhau bod y seilwaith digidol sydd ei angen arnom gennym.

## 2 Sylw i ddarparu

Mae Cymru angen gwell sgiliau, capasiti a chydlynw ar draws y sector cyhoeddus er mwyn cyflawni'r weledigaeth a amlinellwyd yn *Re-energising Wales*. Bydd y newidiadau strwythurol a amlinellir isod yn allweddol ar gyfer datgloi hyn.

## 3 Grid wedi'i ddiogelu at y dyfodol

Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru fynd ati ar frys i weithio o ddifrif gyda chynlluniau busnes Gweithredwyr Rhwydwaith, a fframwaith RIIO-ED2 Ofgem. Mae'r cynlluniau hyn yn allweddol i sicrhau bod ein seilwaith grid yn datgloi rhagor o gyfleoedd ynni yng Nghymru, ac ar gyfer Cymru.

## Newid pwyslais polisi'r Economi Sylfaenol

Bwriad ein hymchwil ar yr Economi Sylfaenol ydy dylanwadu ar bolisiau sy'n gwneud un o dri pheth:

- Adnabod cwmnïau sydd â **photensial i dyfu**, a'u helpu i gyflawni hynny
- Cynorthwyo cwmnïau sydd mewn cyflwr sefydlog i wneud y cyfraniad mwyaf posib tuag at **werth cymdeithasol**
- Cefnogi **arloesi** ar draws pob cwmni a sector yn yr Economi Sylfaenol.

Mae Covid-19 wedi dangos gwerth a gwytnwch rhannau dydd-i-ddydd o'r economi ble mae'r galw'n aros yn gyson - gan gynnwys yn ystod argyfwng. Mae'r Economi Sylfaenol yn lens damcaniaethol cynyddol bwysig ar gyfer bwrw golwg ar ddatblygu economaidd. Mae newidiadau polisi hyd yma wedi canolbwyntio ar ddiwygio trefniadau caffael, a defnydd arloesol o gronfeydd her, ond mae modd gwneud mwy.

Mae Llywodraeth ddiweddaraf Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd yr Economi Sylfaenol yn ei chynlluniau datblygu economaidd, ond agenda newydd ydy hon ac nid oes dealltwriaeth fanwl o hyd ynglŷn a'r hyn fyddai'n ddeilliant da. Nid yw cael economi 'fwy sylfaenol' yn nod ynddo'i hun.

Yr hyn sy'n amlwg ydy y gall yr economi sylfaenol gyfrannu at dwf, yn arbennig yn yr hyn a elwir yn 'ganol colledig', sef cwmnïau o faint canolig sy'n cyflogi rhwng 50-250 o bobl ac sydd wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau. Gall gyfrannu hefyd at agendâu cymdeithasol ehangach, megis creu llefydd, gwytnwch, a datgarboneiddio. Efallai y byddai'n fwy cywir dweud nad oes modd llwyddo gyda'r agendâu hyn oni bai bod cwmnïau a sectorau sylfaenol yn chwarae rhan.

Bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru fwrw eu golygon y tu hwnt i ganolbwynt presennol sylw ar gaffael cyhoeddus, a'r dull 'cronfa her' gwerth chweil, tuag at feysydd polisi eraill sy'n gallu helpu neu lesteirio cwmnïau sylfaenol.



## Cymorth i fusnes

Ar hyn o bryd, mae cwmnïau sylfaenol (sef y rhan fwyaf o fusnesau Cymru) yn syrthio i fwllch rhwng cymorth a buddsoddiad mewn busnes sy'n targedu twf cyflym a sectorau technoleg newydd, ac agenda gwella gwasanaethau cyhoeddus lle mae cyrff statudol yn tra-arglwyddiaethu.

Nododd ein hadroddiad '*A Better Balance*', sut gellir gwneud rhaglenni cefnogi busnes yn fwy hygyrch i fusnesau sylfaenol. Ni ellir barnu llwyddiant y buddsoddiad hwn ar sail twf swyddi yn unig; rhaid ystyried y gwerth cymdeithasol y gall ac y dylai busnesau bach ei ddarparu.

## Argymhellion

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru wneud cymorth i fusnes yn fwy hygyrch trwy:

- ymwneud mewn ffordd well a mwy eang gyda BBaChau
- annog cydweithio rhwng cwmnïau trwy dalebau a rhwydweithia
- cyllid a chefnogaeth ar gyfer datgarboneiddio
- gweithgareddau rhagweld ac adnabod tueddiadau'r dyfodol dan nawdd y Llywodraeth
- agwedd fwy manwl wahaniaethol at ddiffinio blaenoriaethau a gosod targedau.





## Rheoleiddio

Mae'r IWA yn ymchwilio i ffyrdd y gall effeithiau rheoleiddio amrywio fesul sector, diwydiant, a chwmnïau o wahanol feintiau. Rydym eisiau deall a yw rheoleiddio yn rhwystr rhag cael economi sylfaenol gryfach.


Gosododd Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth ddiweddaraf Cymru uchelgais i ddatblygu fframwaith rheoleiddio modern er mwyn cefnogi arferion busnes cyfrifol, twf a chystadleurwydd trwy wella'r gwaith o ddadansoddi effeithiau ac ymgysylltiad, a thrwy fonitro cystadleuaeth. Bum mlynedd yn ddiweddarach, nid yw'n amlwg beth sydd wedi cael ei wneud i gefnogi'r uchelgais hwn.

## Argymhelliad

Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru ddatblygu gweledigaeth a gosod targedau ar gyfer **rheoleiddio gwell**, gan roi ystyriaeth yn arbennig i gwmnïau bach, sylfaenol sy'n cefnogi economïau lleol. Dylai hyn gynnwys gwella'r offer a'r dadansoddi a ddefnyddir mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, yn enwedig ar gystadleurwydd.

Bydd ein gwaith yn canfod cyfleoedd pellach i wella rheoleiddio er budd cwmnïau sylfaenol.

Rhaid rhoi sylw hefyd i sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi **arloesi a gwella cynhyrchiant**, trwy weithredu ar sgiliau ac ymchwil a datblygu, yn ogystal â dod ag arloesi i mewn i gylch gwaith Busnes Cymru a'r Banc Datblygu. Dyma fydd y maes y bydd ein hymchwil yn canolbwyntio arno nesaf.



## Cael y strwythurau'n iawn

**Er mwyn cyflawni'r newidiadau i'r economi rydym am eu gweld, rhaid i ni gael y strwythurau'n iawn o fewn Llywodraeth Cymru, ac yn y Deyrnas Unedig.**

Credwn fod hyn yn golygu y dylai'r Economi, Ynni a Chludiant orwedd yn yr un portffolio gweinidogol.

Mae'n golygu hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'i phwerau cynnull i gefnogi ceisiadau llwyddiannus am gronfeydd sydd dan reolaeth Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau nad yw datblygu economaidd yng Nghymru yn arafu wedi Brexit.

### Gweinidog dros yr economi, yr amgylchedd a thrafnidiaeth

Mae cydnabyddiaeth eang erbyn hyn bod angen i'r economi fyd-eang fynd trwy broses o ddatgarboneiddio ar frys. Mae'r peryglon o beidio â gwneud hynny'n amlwg, ac rydym wedi dechrau gweld canlyniadau diffyg gweithredu yn y llifogydd diweddar yng Nghymru. Mae'r broblem hon yn debygol o waethygu, gyda Climate Cymru yn datgan bod rhagolygon yn dangos cynnydd o 19% mewn glawiad yn y gaeaf yng Nghymru erbyn 2080. Mae datgarboneiddio felly yn golygu bod rhaid ailgynllunio economïau tuag at fodelau mwy cynaliadwy.

Golyga Covid a Brexit y bydd economi Cymru, yn y tymor byr, yn wynebu heriau newydd. Ni ellir cymryd adferiad yn ganiataol, a bydd rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ddarparu economi lwyddiannus, lân, wyrdd a theg gyda chefnlen economaidd fwy heriol.

Mae gwleidyddion o bob llun yn cydnabod bod hyn yn creu cyfleoedd yn ogystal â bygythiadau, ac maent eisiau gweld y bobl a'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli yn elwa o swyddi gwyrdd o ansawdd uchel a gwell amgylchedd naturiol. Mae hyn wedi peri i'r llinell rhwng polisi economaidd ac amgylcheddol fynd yn fwy aneglur, ond nid yw strwythurau llywodraeth wedi cadw i fyny â'r newid hwn.

## Argymhelliad

Dim ond os bydd penderfyniadau am agweddau 'gwyrdd' a phenderfyniadau am 'dwf' yn mynd law yn llaw y gall Cymru gyflawni twf gwyrdd.

Dylai hyn ddechrau ar y brig, gyda threfniadaeth cabinet sy'n **gosod yr economi a'r amgylchedd yn yr un portffolio** ochr yn ochr â thrafnidiaeth, sydd â chyswllt cryf hefyd â'r ddau faes.

Yna byddai'r gweinidogion hyn yn gallu bod yn gyfrifol am swyddfa newydd dros ddatblygu economaidd wrth galon y llywodraeth, a fyddai'n gallu cydlynu'r drefniadaeth yng ngwasanaeth sifil Cymru er mwyn sicrhau bod y timau hyn yn cydweithio'n agos tuag at flaenoriaethau cyffredin, yn hytrach nag mewn seilos ar wahân.

## Datblygu economaidd ar ôl Brexit

Mae tirwedd datblygu economaidd rhanbarthol yn mynd trwy gyfres o newidiadau sylweddol. Golyga hyn y bydd rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru neilltuo egni i gynllunio fframwaith newydd ôl-Brexit ar gyfer datblygu economaidd yn ogystal a darparu'r gwaith.

Yr her greiddiol fydd sicrhau na fydd Cymru ar ei cholled o ganlyniad i'r symudiad o ddull sy'n seiliedig ar angen i ddull Llywodraeth y DU o ymwneud â datblygu economaidd sy'n cynnig symud oddi wrth bolisi diwydiannol a pholisi sectorau tuag at fuddsoddiadau mwy cyffredinol; a chyfres o gronfeydd cystadleuol i'w dyfarnu mewn ardaloedd daearyddol mwy lleol a'u gweinyddu o Lundain.

Er mwyn sicrhau na fydd Cymru'n cael ei gadael ar ei hôl hi, mae angen i bawb sy'n creu polisi a phob arweinydd gwleidyddol yng Nghymru gydnabod yr angen brys am strategaeth, cysondeb a chydweithredu er mwyn cael y gorau o'r gyfundrefn newydd ar gyfer cyllido datblygu rhanbarthol. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid mynd i'r afael â chwestiynau pwysig am lywodraethu.

## Argymhellion

Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru ddefnyddio ei phwerau cynnull i fynd ati'n gyflym i sefydlu **fforymau a strwythurau effeithiol ar gyfer datblygu syniadau am fuddsoddiadau** sy'n gallu cynhyrchu effeithiau ystyrlon. Dylai'r rhain gynnwys awdurdodau lleol, bargeinion dinesig a thwf a Chyd-bwyllgorau Corfforedig, aelodau etholedig yn Seneddau Cymru a'r Deyrnas Unedig ac, yn allweddol, cynrychiolwyr diwydiant.

I gydlynw'r gwaith hwn, mae angen i Lywodraeth Cymru  **greu swyddfa datblygu economaidd wrth galon y llywodraeth** i oruchwylio'r hyn a gyflawnir yn unol â nodau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.



## Gweledigaeth hirdymor

Er mwyn gwreiddio nodau datblygu economaidd ymhellach ar draws y llywodraeth, mae angen set o flaenoriaethau wedi'u cytuno ar Gymru a fydd yn para'n hirach na Gweinidogion unigol, gan edrych ar newidiadau strwythurol dros y tymor hir. Mae gweledigaeth wedi'i saernio'n dda sy'n ennyn cefnogaeth helaeth yn gallu tynnu datblygu economaidd allan o adran Economi a Thrafnidiaeth y llywodraeth a'i wneud yn fusnes i bawb.

Mewn cyfnod pan fydd y cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru yn debygol o leihau wrth golli Buddsoddiadau Strwythurol Ewropeaidd, bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod ei holl adrannau yn buddsoddi mewn ffordd sy'n cefnogi blaenoriaethau economaidd, boed hynny trwy gaffael uniongyrchol, seilwaith, sgiliau neu iechyd a lles.

## Argymhellion

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru greu **strategaeth deng mlynedd ar gyfer datblygu economaidd** sy'n amlinellu blaenoriaethau, gwendidau a chryfderau. Dylai hyn gael ei ddatblygu trwy ymgysylltu a chydweithio'n eang gydag ymchwilyr ac arbenigwyr.

Bydd strategaeth o'r fath fwyaf tebygol o lwyddo os caiff ei datblygu ar **sail trawsbleidiol**. Dylai pob plaid yng Nghymru gydweithio'n ddidwyll i ffurfio cynllun nad yw'n cael ei beryglu gan gylchdroeon gwleidyddol.

Dylai'r strategaeth hon ddatblygu ar waith sydd eisoes wedi' wneud i ganfod **Tueddiadau'r Dyfodol**, a dylai amlinellu ymatebion cenedlaethol i heriau datgarboneiddio, technolegau digidol a'r economi wybodaeth, gwaith teg a newid demograffig.



